



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Crynodeb gweithredol

Agweddau at bobl drawsryweddol

Awst 2020

Hannah Morgan, Chrysa Lamprinakou, Elizabeth
Fuller, Muslihah Albakri

Crynodeb gweithredol

Awgryma data o'r arolwg 'British Social Attitudes' (BSA) yn 2019 fod agweddau cyhoeddus at bobl drawsryweddol at ei gilydd yn bositif. Yn ôl y cyhoedd peth drwg yw trawsffobia ac maent yn fwy tebygol i fod â theimladau positif yn hytrach na rhai negyddol am bobl drawsryweddol. Fodd bynnag, nid hyn yw'r darlun cyfan; mae agweddau at bobl drawsryweddol yn fwy o fod yn ymwneud â sefyllfaoedd penodol ac yn amrywio yn ôl nodweddion demograffig.

Roedd rhai sefyllfaoedd penodol lle'r oedd llai o ymatebwyr yn dal barnau positif am bobl drawsryweddol. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd yr ymatebwyr a oedd wedi mynegi teimladau nad oedd yn bositif wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal - rhwng y rhai a oedd yn ansicr a'r rhai a oedd yn mynegi barnau negyddol pendant. Cytunodd ychydig yn fwy na hanner yr ymatebwyr y dylai pobl drawsryweddol allu newid y rhyw ar eu tystysgrif geni (53%, o'i gymharu â 24% nad oedd yn cytuno). Hefyd roedd ansicrwydd am a ddylai menyw drawsryweddol allu cael mynediad i noddfeydd ar gyfer menywod a oedd yn ddiodefwr trais domestig; roedd 51% yn gysurus gyda hyn, o'i gymharu â 24% nad oeddent yn gysurus.

Pan fo data o flynyddoedd blaenorol ar gael, roedd agweddau positif at bobl drawsryweddol naill ai'n parhau'n gyson neu wedi gostwng ychydig. Yn hynod, roedd agweddau at fenywod drawsryweddol yn cael mynediad i noddfeydd ar gyfer menywod yn dioddef trais domestig, a defnydd pobl drawsryweddol o doiledau cyhoeddus, yn fwy negyddol o'i gymharu â 2016, er bod y rhan fwyaf yn dal yn gyffyrddus â'r ddau.

Roedd lefelau uchel o gymeradwyaeth tuag at gyflogi pobl drawsryweddol â chymwysterau addas fel swyddogion yr heddlu (84%) ac athrawon ysgolion cynradd (75%).

Roedd rhai gwahaniaethau amlwg mewn agweddau at bobl drawsryweddol ar draws amrediad o nodweddion demograffig; roedd menywod, pobl ifancach a'r rheiny â chyraeddiadau addysgol uwch yn fwy tebygol o fod yn bositif yn eu safbwyntiau.

Roedd un o bob chwech yn arddel rhagfarn tuag at bobl drawsryweddol. Roedd ganddynt safbwyntiau gwahaniaethol am natur trawsnewid a lle pobl drawsryweddol yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, er bod 15% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd yn cytuno â'r gosodiad bod pobl drawsryweddol yn mynd trwy broses trawsnewid oherwydd 'angen dros dro ac arwynebol iawn', cynyddodd hyn i 49% o ymatebwyr a ddisgrifiodd eu hunain yn rhai rhagfarnllyd.

Awgryma'r canfyddiadau nad yw cydymdeimlad â phobl drawsryweddol o angenrheidrwydd yn cyfateb i dderbyniad llwyr o'u hunaniaeth rhywedd.

Daw canfyddiadau'r adroddiad hwn o arolwg BSA 2019. Wedi'i gynnal gan y 'National Centre for Social Research' yn flynyddol ers 1983, mae'r arolwg BSA yn ffynhonnell awdurdodol o ddata ar farnau'r cyhoedd ym Mhrydain. Defnyddia fethodoleg hapsampl tebygolrwydd i roi sampl cynrychiadol o oedolion 18 oed a hŷn yn byw ar aelwydydd preifat ym Mhrydain. Yn 2019, cafodd 3,224 o oedolion eu cyfweld wyneb i wyneb, ac atebodd 2,636 ohonynt gwestiynau ychwanegol mewn fformat hunanlenwi.

Cysylltau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar [ein gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn i: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae croeso i chi roi adborth.

Ar gyfer gwybodaeth ar gael mynediad i un o'n cyhoeddiadau mewn fformat amgenach cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

[Beth am gael y newyddion diweddaraf am ein gwaith, digwyddiadau a chyhoeddiadau drwy arwyddo i'n e-gylchlythyr.](#)

EASS

Ar gyfer cyngor, gwybodaeth neu ganllaw ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol a rhad ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn Testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 to 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)

10:00 to 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Awst 2020

ISBN: 978-1-84206-830-4